# Dylanwadu a Hysbysu Engage to Change Fy adnabod i, dy adnabod di: Digwyddiadau gwrando a dysgu

## Caerdydd, Caerfyrddin a Llandudno, Mehefin 2024

*Angela Kenvyn, Rheolwr Prosiect Dylanwadu a Hysbysu Engage to Change, Anabledd Dysgu Cymru.

**Gerraint Jones Griffiths, Llysgennad Arweiniol Dylanwadu a Hysbysu Engage to Change, Anabledd Dysgu Cymru.**

**Dr. Elisa Vigna a Andrea Meek, Tîm gwerthuso Engage to Change , NCMH, Prifysgol Caerdydd.**



*Ar gyfer unrhyw ymholiadau am yr adroddiad hwn, cysylltwch â'r prif awdur Angela Kenvyn ( angela.kenvyn@ldw.org.uk )

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Cefndir | 2 |
| Cyflwyniad | 3 |
| Crynodeb | 5 |
| Pobl sydd â phrofiad byw o anableddau dysgu a/neu awtistiaeth | 7 |
| Rhieni a Gofalwyr | 11 |
| Cyflogwyr a comisiynwyr a darparwyr gwasanaethau | 15 |
| Beth sydd ei angen? | 23 |
| Beth ddylai Senedd Cymru fod yn ei wneud? | 25 |
| Atodiad A | 27 |




# Cefndir:

Roedd Engage to Change yn brosiect saith mlynedd ar draws Cymru, wedi'i ariannu drwy Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol a'i gefnogi gan Lywodraeth Cymru i helpu pobl ifanc ag anabledd dysgu a/neu awtistiaeth i fynd i'r afael â rhwystrau cyflogaeth a phontio i swydd â thâl. Dan arweiniad Anabledd Dysgu Cymru, daeth ag asiantaethau cefnogi cyflogaeth ELITE ac Agoriad Cyf at ei gilydd i ddarparu hyfforddiant swyddi, lleoliada di-dâl a lleoliadau â thâl a swyddi â thâl mewn gweithleoedd cyffredin. Cafodd y prosiect ei gefnogi gan hunaneiriolwyr o Pobl yn Gyntaf Cymru Gyfan a'i werthuso gan y Ganolfan Genedlaethol ar gyfer Iechyd Meddwl (NCMH) ym Mhrifysgol Caerdydd.

Darparodd y prosiect Engage to Change gymorth cyflogaeth yn llwyddiannus drwy hyfforddiant swyddi i 1075 o bobl ifanc a darparu 244 interniaeth â chymorth, gan ennill cyfradd cyflogaeth gyffredinol â thâl o 41%. Mae hyn yn cael ei gymharu â chyfradd cyflogaeth amcangyfrifedig  o 4.8% ar gyfer pobl ag anableddau dysgu yn Lloegr ( BASE 2024 ).

Mae Dylanwadu a Hysbysu Engage to Change yn bartneriaeth rhwng Anabledd Dysgu Cymru ac NCMH ym Mhrifysgol Caerdydd. Rydym yn bwrw ymlaen â gwaith polisi, ymchwil, a gwaith gwaddol y prosiect Engage to Change.

Rydym ni'n gwneud hyn drwy weithio gydag eraill gan gynnwys Llywodraeth Cymru, Aelodau o'r Senedd, awdurdodau lleol, colegau, byrddau iechyd, pobl â phrofiad byw a'u teuluoedd.



# Cyflwyniad:

Roeddem ni’n teimlo ei bod yn bwysig dod â phobl at ei gilydd, yn bersonol, i drafod cyflogaeth, beth oedd profiadau pobl, pa gefnogaeth sydd ar gael, a'r hyn sydd ei angen o hyd i helpu pobl sydd â phrofiad byw i gael swydd â thâl.

Fe wnaethom ni gynnal tri digwyddiad gwrando o'r enw "Fy adnabod i, dy adnabod di". Cynhaliwyd y digwyddiad cyntaf yn Future Inn, Bae Caerdydd ar 11 Mehefin. Mynychodd 65 o bobl.
Cynhaliwyd yr ail ddigwyddiad yng Nghanolfan Halliwell, Caerfyrddin ar 12 Mehefin a mynychodd 47 o bobl.

Cynhaliwyd y trydydd digwyddiad yn Venue Cymru, Llandudno ar 17 Mehefin a mynychodd 45 o bobl.

Roedd y bobl a fynychodd yn cynnwys pobl â phrofiad byw o fod ag anableddau dysgu a/neu awtistiaeth, rhieni ac aelodau o'r teulu, cyflogwyr, darparwyr gwasanaethau a chomisiynwyr gwasanaeth er enghraifft o awdurdodau lleol, iechyd a gofal cymdeithasol, colegau a sefydliadau trydydd sector a phreifat.

Llywodraeth Cymru sy’n arwain ar gyfer cyflogadwyedd a sgiliau, Twf Swyddi Cymru+, Interniaethau â Chymorth, Gwarant i Bobl Ifanc, Hyrwyddwr Cyflogaeth Pobl Anabl ac fe wnaeth eu cydweithwyr hefyd fynychu.

Roedd pob un o'r digwyddiadau'n cynnwys cyflwyniadau gan reolwr prosiect Dylanwadu a Hysbysu Engage to Change, person ifanc a gefnogwyd gan Engage to Change i gael swydd, rhiant a chyflogwr.

Siaradodd rheolwr y prosiect am Engage to Change a'r gwaith yr ydym ni wedi bod yn ei wneud ers i'r prosiect ddod i ben ym mis Mai y llynedd. Soniodd am yr angen i gymorth hyfforddwr swyddi fod ar gael drwy'r holl raglenni cyflogaeth ledled Cymru gan gynnwys y rhai sy'n cael eu hariannu gan Lywodraeth Cymru, ac i hyfforddiant swyddi gael ei gydnabod fel proffesiwn.

Siaradodd y bobl ifanc a'r rhieni am eu profiadau, y gefnogaeth a gawsant gan Engage to Change a'r gwahaniaeth mae cael swydd yn ei olygu iddyn nhw a'u teulu.

Soniodd y cyflogwyr am ddatgloi potensial pobl ag anableddau dysgu a gweithleoedd cynhwysol. Hefyd, y gwahaniaeth mae cyflogi person ag anableddau dysgu a/neu awtistiaeth wedi ei wneud i'w gweithle

Ar ôl cinio, cafwyd trafodaethau bwrdd dan arweiniad aelod o staff o Anabledd Dysgu Cymru a NCMH Prifysgol Caerdydd. Hoffem ddiolch i fynychwr yn y digwyddiad yng Nghaerfyrddin a wirfoddolodd i hwyluso bwrdd a 2 berson wnaeth fynychu ddigwyddiad Llandudno am wneud yr un peth. Defnyddiwyd cyfres o gwestiynau ac awgrymiadau i gychwyn y trafodaethau. Gofynnwyd yr un cwestiynau ym mhob digwyddiad, gweler Atodiad A.

Mae’r adroddiad hwn wedi’i drefnu’n adrannau sy'n adlewyrchu'r adborth o bob trafodaeth grŵp.



# Crynodeb

Ers 2016 mae cyflogaeth â chymorth wedi esblygu ledled Cymru. Fodd bynnag, mae'n amlwg bod ffordd bell i fynd. Roedd y bobl wnaeth fynychu ein digwyddiadau yn frwdfrydig ac yn angerddol am gyflogaeth i bobl ag anabledd dysgu a/neu awtistiaeth. Roedd themâu clir a ddaeth i'r amlwg o drafodaethau. Mae'r rhain yn cael eu hamlygu yma:

Pwysigrwydd gweithio: Mae cyflogaeth yn amlwg yn bwysig. Dywedodd pobl ag anableddau dysgu a/neu awtistiaeth wnaeth fynychu wrthym eu bod nhw am weithio, ond mae dod o hyd i gymorth yn anodd. Gall cael swydd newid bywyd, dywedodd pobl wrthym eu bod nhw'n teimlo eu bod nhw'n cyfrannu at gymdeithas a bod ganddynt fwy o annibyniaeth a chyfleoedd trwy weithio. Roedd rhieni a gofalwyr yn cwestiynu sut fyddai bywydau eu plant yn edrych heb gyflogaeth, beth yw eu dewisiadau eraill? Roedd cyflogwyr a chomisiynwyr yn ymwybodol o'r manteision o gyflogi pobl ag anableddau dysgu a/neu awtistiaeth a sut roedd hyn yn cynyddu ymwybyddiaeth ac yn herio rhagdybiaethau a stigma.

·Cyfathrebu a hygyrchedd: Roedd yn amlwg ar draws pob grŵp rhanddeiliaid bod cyfathrebu ynghylch pontio a chyflogaeth yn wael. Roedd pobl yn ei chael hi'n anodd gwybod beth oedd allan yna, beth allen nhw wneud cais amdano a beth allen nhw ofyn amdano. Ar gyfer pobl ag anableddau dysgu a/neu awtistiaeth a rhieni/gofalwyr tynnwyd sylw at gael gwell cyngor tra yn yr ysgol a'r coleg. Dylid darparu gwell gwybodaeth am opsiynau ar gyfer cyflogaeth a sut i gael gafael ar gymorth, ac yn aml nid yw gwybodaeth neu bolisïau cyflogaeth ysgrifenedig yn cael eu hysgrifennu mewn ffordd hygyrch. Nid oedd gwybodaeth am gynlluniau'r llywodraeth yn mynd drwodd i bobl na'u rhieni. Mae hyn yn rhwystr. Nododd cyflogwyr a chomisiynwyr hefyd fod bylchau mewn cyfathrebu. Nid yw prosiectau a hyrwyddir gan Lywodraeth Cymru o reidrwydd yn cyfathrebu ac yn cysylltu â phrosiectau a ariennir yn lleol. Mae hwn yn gyfle sy'n cael ei golli. Cymorth: Er bod pocedi o arfer da yn cael eu hamlygu ledled Cymru roedd y rhain yn cael eu hystyried yn achlysurol ac yn rhanbarthol ac roedd ymdeimlad o "ble ydyn ni'n mynd" o hyd? Roedd pobl yn gwerthfawrogi profiad gwaith, ond roedd hyn yn anghyson ac yn gyfyngedig fel cyfle go iawn.

Yn clymu mewn gyda chyfathrebu a hygyrchedd roedd llawer o rieni a phobl ag anableddau dysgu/ awtistiaeth nad oeddent wedi clywed am gynlluniau cenedlaethol fel Y Gwarant i Bobl Ifanc, Cymru'n Gweithio, Twf Swyddi Cymru+ a Mynediad at Waith. Roedd llai yn gwybod am Gyrfa Cymru , ond amlygwyd eu bod yn siarad â'r person ifanc yn yr ysgol ond nad oeddent yn eu cefnogi ymhellach. Tynnwyd sylw at ddiffyg cefnogaeth uniongyrchol, er enghraifft gan hyfforddwr swydd arbenigol. Awgrymwyd cefnogaeth gan gymheiriaid (pobl ifanc a mentora rhieni/gofalwyr) fel enghraifft dda o godi gwybodaeth a disgwyliadau. Nododd pobl â phrofiad byw a rhieni/gofalwyr fod angen i gyflogwyr a chomisiynwyr fod yn well wrth gefnogi cyfleoedd ar gyfer cyflogaeth, gan gynnwys addasiadau rhesymol ac arferion gwaith hygyrch

·Cyllid: Amlygwyd biwrocratiaeth, polisïau a gweithdrefnau gan gyflogwyr a chomisiynwyr. Roedd yna alw am gyllid cenedlaethol mwy hygyrch ar gyfer cefnogi a chynnal cyflogaeth i bobl ag anableddau dysgu a/neu awtistiaeth yng Nghymru.
Mae parhad y cyllid hefyd yn broblem. Byddai cyllid tymor hwy a strategaeth fwy unedig ar draws Cymru yn fuddiol.

Ar ddiwedd yr adroddiad hwn mae adrannau ar "Beth Sydd ei Angen" a "Beth ddylai Senedd Cymru fod yn ei wneud". Mae'r adrannau hyn yn tynnu sylw at alwadau rhanddeiliaid am well darpariaeth yng Nhgymru o ran pontio a chefnogi pobl ag anableddau dysgu a/neu awtistiaeth i ganfod, ennill a chynnal cyflogaeth. Rydym ni'n gobeithio y gall Llywodraeth Cymru, Senedd Cymru a rhanddeiliaid ddysgu o'r adborth a gasglwyd yma. Mae cyflogaeth yn fusnes i bawb. Mae cysylltiadau uniongyrchol rhwng cyflogaeth a bywyd ehangach, er enghraifft, ar gyfer lles, annibyniaeth, darpariaeth iechyd a gofal cymdeithasol, rolau gofalu a'r economi. Er gwaethaf hyn, nid yw pobl ag anabledd dysgu a/neu awtistiaeth yn gyffredinol yn cael eu hystyried yn flaenoriaeth ar gyfer cymorth cyflogaeth. Mae angen i hyn newid.



# Pobl sydd â phrofiad byw o anableddau dysgu ac/neu awtistiaeth:

Roedd y bobl â phrofiad byw wnaeth fynychu’r digwyddiad yng **Nghaerdydd** yn bobl ifanc neu'n oedolion ifanc. Roeddent yn cynnwys person a oedd yn mynychu'r coleg, person a oedd wedi gadael coleg ond nad oedd yn gyflogedig, pobl sy'n gyflogedig, nifer wedi cael cefnogaeth Engage to Change i gael swydd gyflogedig ac yn dal i gael eu cyflogi.

**Y pwyntiau allweddol y gwnaeth pobl â phrofiad byw yn sôn amdanynt oedd:**

- Wedi profi diffyg cyfeirio at yr help a'r gefnogaeth gywir sydd ar gael i ddarparu arbenigedd wrth ddod o hyd i'r camau nesaf cywir neu briodol mewn hyfforddiant a gwaith
- Heb gael cyngor gyrfaoedd na chael eu holi pa swydd yr hoffent ei gwneud tra roeddent yn yr ysgol
- Erioed wedi gwybod beth roedden nhw eisiau ei wneud, doedd ganddyn nhw ddim dewis
- Wedi cael profiad gwaith am wythnos wrth fynychu ysgol brif ffrwd.
- Wedi cael profiad gwaith gwerthfawr a oedd yn werth chweil ac roedd mawr ei angen ond dim cefnogaeth bellach
- Dim syniad gan nad oedd unrhyw help i gynllunio tuag at gael swydd
- Nid oedd y coleg yn bleserus, nid oedd cyngor gyrfa
- Mae pontio yn cael ei dan-gefnogi, ei danbrisio ac mae diffyg adnoddau
- Wedi cael lleoliad gwirfoddoli ond dim swydd â thâl
- Dim cefnogaeth tan Engage to Change
- Nid oedd hyfforddiant swyddi ar gael tra yn yr ysgol
- Wedi cael profiadau gwaith a chael swydd â thâl drwy'r prosiect Engage to Change. Hyfforddwr swydd wir wedi helpu yn fawr a byddai angen y gefnogaeth honno eto pe baent yn newid swyddi.
- Cynorthwy-ydd personol drwy Mynediad at Waith a helpodd i gael swydd ac sy'n cefnogi yn y gwaith.
- Mae trafnidiaeth yn broblem ac yn rhwystr rhag cael gwaith.
- Mae methu gyrru yn rhwystr pan fydd yn ofynnol ar gyfer swydd
- Mae recriwtio anhygyrch yn rhwystr
- Dim ymwybyddiaeth o gyllid Mynediad at Waith.
- Doeddwn i ddim wedi clywed am Warant y Person Ifanc.
- Ddim wir yn gwybod beth mae Senedd Cymru yn ei wneud.

**Beth mae cael swydd yn ei olygu?**

- Mae'n golygu popeth i gael swydd ac ennill arian
- Rwy'n llawer hapusach nawr fod gen i swydd
- Rwy'n hapus, doeddwn i ddim yn gwybod pa sgiliau oedd gen i
- Dw i'n hoffi cael arian. Yn y dyfodol hoffwn symud allan a byw ar fy mhen fy hun
- Rwy'n hoffi'r hyblygrwydd o fod i ffwrdd oddi wrth fy rhieni yn gwaith
- Beth fyddai'n helpu?
- Cefnogaeth a thorri tasgau i lawr
- Teilwra swyddi, mae angen i swyddi siwtio anghenion unigolion a chyflogwyr
- Mae angen i gyflogwyr ddod i adnabod y person
- Mae angen gwell cefnogaeth pontio o'r ysgol i'r byd gwaith
- Angen gwybod am yr opsiynau a chyfleoedd swyddi
- Addasiadau Rhesymol
- Dylid darparu gwell gwybodaeth i ddysgwyr mewn colegau am opsiynau a chyfleoedd ar gyfer dysgu pellach a sut i gael gafael ar gymorth cyflogaeth.

Roedd y bobl â phrofiad byw wnaeth fynychu'r digwyddiad yng **Nghaerfyrddin** yn bobl ifanc oedd yn mynychu coleg AB lleol i wneud llwybr cwricwlwm Sgiliau Byw'n Annibynnol 3 a 4. Mae ganddynt brofiad gwaith naill ai yn y coleg neu BIP Hywel Dda (interniaethau â chymorth). Dywedodd un person fod ganddynt gwaith â thâl rhan amser tra yn y coleg, roedd dau berson yn cael eu cyflogi ar ôl cael cefnogaeth Engage to Change.

**Y pwyntiau allweddol y gwnaeth pobl â phrofiad byw yn sôn amdanynt oedd:**

- Ddim yn cofio cael eu holi am gael swydd neu weld unrhyw un o Gyrfa Cymru tra yn y ysgol
- Rhywun wedi siarad â nhw yn yr ysgol am gael swydd
- Heb gael profiad gwaith tra yn yr ysgol
- Doedd y rhan fwyaf o bobl ifanc ddim yn gwybod beth roedden nhw eisiau ei wneud.
- Sut mae plentyn yn 16 oed i fod i wybod?
- Ni ofynnwyd iddynt pa swydd yr hoffent ei gwneud pan fyddant yn gadael y coleg
- Wedi siarad gyda Gyrfu Cymru tra yn y coleg ond dim byd wedi digwydd
- Roedd rhai wedi trafod gwaith gyda'u rhieni
- Cafodd un person gefnogaeth PA gan Pobl Sir Gaerfyrddin yn Gyntaf
- Mae profiad yn bwysig ar gyfer gwybod sut i symud ymlaen i gyflogaeth ac i mewn i gyflogaeth, ond mae angen cefnogaeth
- Fel gofalwr ifanc mae un person yn poeni am weithio oherwydd eu cyfrifoldebaugofalu
- Roedd un person ifanc, sydd eisoes yn byw'n annibynnol, yn poeni am effaith gweithio ar eu budd-daliadau lles.
- Doeddwn i ddim yn gwybod am y Warant Pobl Ifanc.

- Ddim yn gwybod am Twf Swyddi Cymru+ na phrentisiaethau â chymorth Beth mae cael swydd yn ei olygu?
- Mae'n bwysig cael swydd i fod yn annibynnol, cael eich cartref eich hun a dod i adnabod pobl newydd
- Mae swydd yn bwysig i gael arian, dod yn chi eich hun, creu pwy ydych chi a bod â hyder ynoch chi eich hun.
- Roedd y tro cyntaf i mi gael swydd yn anhygoel, dim byd fel gwirfoddoli, swydd go iawn gydag arian ac roedd yn wych
- Mwynhau gweithio'n rhan-amser tra yn y coleg ac ennill arian da sy'n golygu y gallaf fynd ar wyliau

**Beth fyddai'n helpu?**

- Mae'n anodd cael swydd. Mae angen help i wneud cais am swydd a chyngor ar ble i edrych
- Mae angen cymorth cyfweliad
- Mae angen cymorth un i un i wybod beth i'w wneud yn y gweithle ac i deithio yno yn annibynnol

Roedd pobl â phrofiad byw wnaeth fynychu'r digwyddiad yn Llandudno o amrywiaeth o oedrannau yn bobl ifanc ac oedolion. Roeddent yn cynnwys pobl oedd wedi cael eu cefnogi gan Engage to Change i gael swyddi â thâl ac yn dal i gael eu cyflogi, pobl a oedd wedi gwirfoddoli ac erioed wedi talu gwaith, a pherson ifanc sy'n mynychu'r coleg.

**Y pwyntiau allweddol y gwnaeth pobl â phrofiad byw yn sôn amdanynt oedd:**

- Trafodwyd cyflogaeth tra yn yr ysgol
- Ni thrafodwyd cyflogaeth tra yn yr ysgol
- Roedd ymgynghorydd gyrfaoedd yn yr ysgol ond dim profiad gwaith na sôn am gyflogaeth
- Soniodd un person am gefnogaeth o Gyrfa Cymru ac fe wnaeth hynny helpu'n fawr
- Wedi cael cefnogaeth gan hyfforddwyr swyddi Agoriad (prosiect Engage to Change) i gael swydd
- Heb gael unrhyw gefnogaeth
- Wedi cael cefnogaeth hyfforddwr swydd ar gyfer interniaeth drwy Engage to Change
- Roedd gan rai pobl un neu fwy o swyddi lle nad oeddent yn cael eu talu neu lle nad oedd ganddynt swydd wirfoddol. Roedd un o'r rhain am gyfnod hir o amser
- Mae trafnidiaeth yn broblem hyd yn oed os yw'n gallu defnyddio bws
- Nid yw pob swydd yn gweithio
- Roedd un person yn teimlo eu bod yn ffodus i gael prentisiaeth ac yn gweld pob agwedd ar y gwaith yn dda iawn.

- Cafodd un person brofiad negyddol o brentisiaeth a ddeilliodd oherwydd diffyg deall eu hanghenion a diffyg cefnogaeth
- Mae un person yn gwneud llawer o waith gwirfoddol ac yn gallu teithio'n annibynnol ond byddai wrth ei fodd yn cael gwaith â thâl
- Heb glywed am y Warant Pobl Ifanc

**Beth mae cael swydd yn ei golygu?**

- Mae cael swydd â thâl yn golygu cael incwm a bod yn fwy annibynnol
- Mae'n fuddiol oherwydd roedd yn rhywbeth yr oeddwn i bob amser eisiau ei wneud. Rwy'n sicrhau fy mod i'n gwneud yn gwaith da. Mae prydlondeb yn bwysig
- Yn hapus i gael y cyfle i helpu eraill a theimlo'n rhan o gymdeithas, cyfrannu at y gymuned leol a bod yn fodel rôl i eraill

**Beth fyddai'n helpu?**

- Mae angen cefnogaeth i ddysgu am waith o'r dechrau
- Cymorth hyfforddwyr swyddi a help gyda phryder a sgiliau cymdeithasol
- Mae cefnogaeth gan gydweithwyr yn bwysig
- Mae cael adborth ar y gwaith rydych chi wedi'i wneud yn bwysig, mae'n gwneud i chi deimlo'n dda ac yn fwy hyderus



# Rhieni a gofalwyr:

Roedd rhieni a gofalwyr wnaeth fynychu'r digwyddiad yng **Nghaerdydd** yn cynnwys y rhai yr oedd eu mab/merch wedi'u cyflog; yn ymgymryd ag interniaeth â chymorth; yn y coleg; yn gwirfoddoli; ac oedd yn ddi-waith.

**Y pwyntiau allweddol y gwnaeth rhieni a gofalwyr sôn amdanynt oedd:**

- Yr unig fewnbwn gan Gyrfa Cymru oedd mewn adolygiad pontio ysgol ac roedd hyn yn yn dilyn cais ganddyn nhw
- Nid oedd y gweithiwr cymdeithasol o gymorth o ran cyflogaeth
- Nid oedd llawer o opsiynau
- Nid oes unrhyw wybodaeth ar gael am gefnogaeth i gael swydd. Sut ydych chi'n gwybod ble i fynd?
- Mae'r system yn anodd ei llywio, mae'n rhaid i rieni ymladd am gefnogaeth ac yn aml nid ydynt yn cael eu  cyfeirio i'r lle iawn i gael cymorth ar gyfer dod o hyd i'r camau priodol i gyflogaeth
- Mae rhai rhieni'n ceisio helpu i gael swydd ond mae dod o hyd i'r gefnogaeth sydd ei hangen yn anodd
- Nid yw rhieni eraill yn gwneud hyn, ac mae'n gadael y bobl ifanc ar ôl
- Cafodd y mab gyfweliad swydd, ond dim ond awr ymlaen llaw y darparwyd cwestiynau, fe wnaeth hyn achosi iddo gynhyrfu ac nid oedd yn llwyddiannus
- Mae un rhiant yn sôn bod ei berson ifanc angen/eisiau swydd 5 diwrnod yr wythnos, ond sut fydd  hynny'n digwydd? Byddai aros yn y coleg yn gam yn ôl
- Soniodd rhiant nad oedd unrhyw un wedi holi/gofyn am farn ei berson ifanc am brofiad gwaith a chyflogaeth
- Dywedodd un arall bod angen i'w person ifanc sylweddoli beth oedd yn bosib iddyn nhw ei wneud.
- Yn aml mae chwiliadau yn dod o hyd i gymorth nad yw'n berthnasol, nad yw'n cael ei ddarparu yn eu hardal nhw neu sydd wedi stopio oherwydd bod y cyllid wedi dod i ben
- Mae'n anoddach os ydych chi'n byw mewn ardal wledig ac os nad oes gennych chi fynediad i'r rhyngrwyd.
- Nid yw addasiadau rhesymol bob amser wedi bod yn rhan o'u profiad mewn addysg, gan arwain at sgil-effaith ar bethau fel diffyg hyder
- Heb glywed am Warant Pobl Ifanc na Thwf Swyddi Cymru+
- Mae pobl ifanc anweithgar yn wastraff sgiliau

**Roedd y pwyntiau cadarnhaol yn cynnwys:**

- Mae gweithwyr ag anableddau yn weithwyr ffyddlon a chynhyrchiol
- Ar ôl cael gwisg gwaith, fe wnaeth feithrin ymdeimlad o berthyn i'w merch, sy'n hanfodol ar gyfer integreiddiad swydd
- Arweiniodd datgelu anabledd a gofyn am addasiadau rhesymol at gwestiynaucyfweliad yn cael eu cyflwyno wythnos ymlaen llaw
- Cefnogaeth a ddarperir gan Engage to Change
- Cefnogaeth a ddarperir gan brosiect cyflogaeth â chymorth CC Caerdydd
- Cymdeithas Genedlaethol Awtistiaeth, cyswllt da ar gyfer cwrdd â rhieni eraill a helpu i ennill hyder i ofyn y cwestiynau mae angen eu gofyn
- Cefnogaeth dda gan y teulu ehangach

**Mae pryderon yn cynnwys:**

- Colli budd-daliadau os yw'r person ifanc yn cael swydd neu'n cynyddu ei oriau rhan-amser
- Cyllid ar gyfer mynd i'r coleg - 2 flynedd yng Nghymru ond 3 yn Lloegr felly os yw person ifanc yn byw yng Nghymru yn mynychu coleg yn Lloegr nid ydynt yn cael eu hariannu am y flwyddyn olaf pan fydd paratoi ar gyfer gwaith  a chefnogaeth pontio i'r gwaith yn digwydd
- Diffyg cefnogaeth ar gyfer pryd mae interniaeth â chymorth neu raglen arall yn dod i ben, ac nid oes gan berson ifanc swydd â thâl

**Beth fyddai'n helpu?**

- Mae angen i wybodaeth fod ar gael, yn hygyrch a chael ei chyhoeddi. Mae angen gwybodaeth hawdd ei darllen ar gyfer  pobl ifanc a 'hwb' o wybodaeth mewn un lle.
- Mae angen cefnogaeth ar gyfer teithio. Dywedodd rhai rhieni wrthym ni eu bod wedi cymryd cyfrifoldeb am hyfforddiant teithio.
- Mae angen cefnogaeth i helpu'r person ifanc i bontio i'r gwaith a chael swydd â thâl
- Mae angen cyfrifiadau gwell am fod yn y gwaith
- Gall pobl ag anableddau weithio ond mae angen i gyflogwyr eu cefnogi

Fe wnaeth dau riant a gofalwr fynychu’r digwyddiad yng **Nghaerfyrddin** , ac roedd mab/merch yn ddau yn cael eu cyflogi ac un roedd mab cyflogedig un yn cael ei gefnogi gan Engage to Change.

**Y pwyntiau allweddol y gwnaeth rhieni a gofalwyr sôn amdanynt oedd:**

- Roedd rhywfaint o ryngweithio gyda Gyrfa Cymru ond dim parhad
- Cafodd un person gefnogaeth gan eu coleg, Gyrfa Cymru a Remploy i gael swydd ond roedd hynny 25 mlynedd yn ôl
- Cafodd un arall fag cymysg o gefnogaeth, ond amser hir yn ôl
- Ychydig neu ddim gwybodaeth yn cael ei darparu ar adegau
- Gall cefnogaeth amrywio rhwng ardaloedd
- Yn aml mae angen i rieni wthio cyn gwneud unrhyw beth ond ni all pob rhiant wneud hyn
- Mae'n anodd i rai rhieni adael fynd i ymddiried mewn cyflogwyr
- Nid yw rhai pobl ifanc yn cael y cyfle oherwydd tybir na allant weithio
- Mae pwyntiau cadarnhaol yn cynnwys:
- Mae cael swydd hefyd yn dod â bywyd cymdeithasol sydd mor bwysig
- Nawr mae ganddi gynllun i weithio a chael tŷ iddi hi ei hun
- Hyfforddiant a chymorth swyddi’n cael ei ddarparu gan Engage to Change Beth fyddai'n helpu?
- Byddai'n ddefnyddiol cael ymwybyddiaeth o'r hyn sydd ar gael ac o ble i gael help
- Mae'n fater o ddod o hyd i'r ffit iawn ac yn bwysig bod cyflogwyr yn gwneud addasiadau rhesymol
- Proffil cymorth dan arweiniad anghenion sy'n eu dilyn o'r coleg i gyflogaeth
- Mae hyfforddiant gwaith yn declyn defnyddiol.
- Byddai cyswllt gyda’r cyflogwr yn cynorthwyol
- Modelau rôl, mae'n ymwneud â dysgu oddi



Roedd rhieni a gofalwyr wnaeth fynychu'r digwyddiad yn **Llandudno** yn cynnwys y rhai yr oedd eu mab, eu merch neu wyres yn y coleg; yn gwirfoddoli; yn gyflogedig; yn y coleg ac yn gweithio'n rhan-amser; yn ddi-waith. Cefnogwyd rhai gan Engage to Change

**Y pwyntiau allweddol y gwnaeth rhieni a gofalwyr sôn amdanynt oedd:**

- Ychydig neu ddim sôn am gael swydd tra yn yr ysgol neu fewnbwn gan GyrfaCymru
- Mae rhai rhieni'n trafod cyflogaeth yn fawr iawn. Mae gan eraill gymaint yn mynd ymlaen fel mai dyma'r peth olaf maen nhw'n meddwl amdano
- Mae'n rhaid bod yn weithgar fel teulu. Beth sy'n digwydd a beth am rieni nad ydyn nhw'n rhagweithiol?
- Mae'n anodd gwybod ble i fynd a phwy i siarad â nhw.
- Soniodd un rhiant am berson ifanc yn cael swydd ran-amser ei hun tra'n mynychu'r coleg hefyd, ond heb ddatgelu oherwydd ofn cael ei labelu neu ei farnu
- Mae rhiant yn sôn am berson ifanc sy'n gweithio'n rhan-amser yn teimlo'n lletchwith oherwydd nad ydynt yn rhyngweithio yn gymdeithasol â chydweithwyr yn y gweithle a'r tu allan iddo oherwydd eu bod yn teimlo'n rhy bryderus ac nad ydynt yn ffitio i mewn
- Soniodd un rhiant am berson ifanc yn ceisio gwneud gwaith gwirfoddol ond nid oedd unrhyw gefnogaeth, felly roedd yn anodd iawn ac yn tynnu sylw at ei ddiffyg sgiliau cymdeithasol a bywyd
- Nid yw ysgolion yn paratoi pobl ifanc ar gyfer cyflogaeth
- Dywedodd rhiant arall nad oedd y cyflogwr yn cydnabod anghenion cymorth y person, ac fe gawson nhw amser trawmatig. Mae angen cymorth parhaus arnynt gan hyfforddwyr gwaith a helpu gyda sgiliau cymdeithasol i leihau gorbryder
- Gall rhyngweithio cymdeithasol â chydweithwyr gwaith fod yn anodd iawn i rai pobl ifanc
- Heb glywed am Warant Pobl Ifanc na Thwf Swyddi Cymru
- Pwyntiau Cadarnhaol:
- Mae'n golygu llawer i bobl ifanc ennill eu harian eu hunain
- Cefnogi hyfforddwyr swyddi (Engage to Change)
- Cefnogaeth gan staff Ysbyty Gwynedd (interniaeth â chymorth) Ymhlith y pryderon roedd:
- Cyllid i'r coleg
- Effaith cyflogaeth ar fudd-daliadau lles
- Cefnogaeth briodol
- Beth fyddai'n helpu?
- Mae angen mawr am fodelau rôl rhieni/gofalwyr. Rhieni sydd â llawer o wybodaeth a profiad
- Mae angen gwybodaeth dda. Mae angen i wefannau gwybodaeth fod yn hygyrch
- Mae teuluoedd angen addysg am swyddi â thâl
- Mae angen i gyflogwyr wneud mwy, deall anghenion, darparu cyfleoedd ac adnoddau
- Rhaid i rieni herio cyflogwyr
- Cefnogaeth barhaus gan hyfforddwyr swyddi

# Cyflogwyr, comisiynwyr a darparwyr gwasanaeth:

Roedd cyflogwyr, comisiynwyr, a darparwyr gwasanaethau wnaeth fynychu'r digwyddiad yng Nghaerdydd yn cynnwys  gweision sifil o Lywodraeth Cymru, darparwyr cyflogaeth â chymorth, tai â chymorth, ysgol, 2 goleg a phrifysgol, pobl sy'n gweithio i gynghorau Pen-y-bont ar Ogwr, Blaenau Gwent, Caerdydd, Sir Fynwy, Casnewydd, Powys, Torfaen, Bro Morgannwg, Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol Caerdydd a'r Fro, amrywiaeth o sefydliadau'r trydydd sector sy'n cynnig cyngor, cefnogaeth a hyrwyddo hawliau.

**Y pwyntiau allweddol y gwnaeth cyflogwyr, comisiynwyr, a darparwyr gwasanaethau sôn amdanynt oedd:**

- Darperir llawer o gefnogaeth sy'n gysylltiedig â Gwarant Pobl Ifanc i bobl ifanc 16- 25
- Mae gwaith wedi'i wneud gydag Engage to Change
- Cymorth/llawer o arian wedi'i roi i mewn i AB, hefyd JGW+. Mae gan Cymunedau am Waith + darged bod rhaid i 20% o bobl sy'n cael cymorth fod yn anabl neu fod â phroblem iechyd hirdymor
- Mae llawer yn cael ei ddarparu ar gyfer pobl sydd angen cymorth gyda'u hiechyd meddwl
- Mae'r adborth i Lywodraeth Cymru ar yr hyn mae Gyrfa Cymru wedi bod yn ei wneud yn achlysurol
- Mae gormod o fiwrocratiaeth ynghylch profiad gwaith a swyddi rhan amser ar gyfer pobl ifanc yn eu harddegau
- Mewn egwyddor, dylai unrhyw un sydd angen cefnogaeth am gyflogaeth boed yn chwilio am waith neu sydd eisoes yn gweithio, ei gael gan Cymru'n Gweithio, nhw yw'r porth. Ddylid darparu cyngor/cyfarwyddyd o leiaf
- Y broblem yw lefel y gefnogaeth sydd ei hangen ac sy'n cael ei darparu
- Mae gan Cymru'n Gweithio ganfyddwr cymorth lleol ar eu gwefan. Nid yw'n wych ac mae angen iddo newid
- Mae gan Warant Pobl Ifanc a JGW+ ymgyrch farchnata fawr gan ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol a radio wedi'i anelu at bobl ifanc ond mae'n ymddangos nad yw hyn yn mynd drwodd i bobl ifanc gydag ADY, eu rhieni a phobl sy'n gweithio gyda nhw
- Mae bylchau mewn cyfathrebu ac ariannu. Nid yw prosiectau a hyrwyddir gan Lywodraeth Cymru o reidrwydd yn cyfathrebu ac yn cysylltu â phrosiectau a ariennir yn lleol. Mae hwn yn gyfle sy'n cael ei golli.
- Yn aml, mae gennym ni gyllid prosiect tymor byr, prosiectau anhygoel, fel Engage to Change, ond pan fyddant wedi gorffen nid oes gwaddol
- Gwastraff talentau. Er enghraifft, mae pobl yn gweiddi am arddwyr, mae gofyn mawr amdanyn nhw. Rydym ni mewn perygl y bydd gennym ni gyfran o bobl ifanc sy'n parhau i fod yn anweithgar, ac nid yw hyn yn deg.

- Nid oes gan lawer o raglenni cyflogaeth y wybodaeth i gefnogi pobl gydag anableddau ac mae hwn yn broblem fawr
- Rydym ni wedi cynnal interniaethau â chymorth ym mhrifysgol Caerdydd. Rydym ni wedi symud hyd yn hyn, ond mae angen i ni sicrhau nad yw hyn yn digwydd dim ond pan fydd pobl yn symud i gyflogaeth drwy interniaethau, mae angen i ni sicrhau y gallwn ni helpu pobl i symud ymlaen. Rydym ni wedi gallu cefnogi pobl ifanc gydag addasiadau rhesymol ac rydym wedi parhau â'r ymrwymiad i interniaethau â chymorth ar y cyd â Choleg Caerdydd a'r Fro
- Mae yna feysydd o arfer da o gwmpas y brifysgol, ond byddai'n dda asesu'r brifysgol ehangach ar gyfer cynhwysiant. Mae angen i ni weithio o'r brig i lawr o uwch reolwyr ac Is-Gangellorion
- Mae gennym ni gyfathrebu mewnol i addysgu pobl am yr interniaethau â chymorth ac rydym ni wedi tynnu sylw at adnoddau dynol fel maes ymgysylltu a gwella.
- Mae'r tîm ymchwil Engage to Change sy'n rhan o Brifysgol Caerdydd wedi ein helpu ni i adolygu rhai o'n hymarferion, ond mae'n waith ar y gweill. Dyma ein her

**Cefnogaeth gan ddarparwyr wnaeth fynychu:**

- Mae gan Gyngor Sir Caerdydd gyfweliadau cerdded i mewn ar gyfer nifer o swyddi, lle mae gan bobl sydd â diddordeb mewn  swydd yn cwrdd â'r person mewn ffordd fwy anffurfiol ac yna, maen nhw'n llenwi ffurflen gais ac yn gwneud y cyfweliad wedyn. Defnyddiwyd hyn i gynyddu nifer y bobl sy'n ymgeisio am swydd, o ran rhai swyddi, dim ond un cais oedd ganddynt, nad oedd yn wych i Gyngor Caerdydd.
- Cefnogodd gwesteiwr Prifysgol Caerdydd interniaethau mewn partneriaeth â Choleg Caerdydd a'r Fro
- Mae Cyngor Dinas Caerdydd mewn partneriaeth ag ysgolion ac ysbyty Prifysgol Cymru yn cynnig interniaethau â chymorth
- Mae Celt+ ym Mro Morgannwg wedi cefnogi mentoriaid cyflogaeth sy'n darparu hyfforddiant, mewn cymorth gwaith, a mynediad at wirfoddoli. Maen nhw'n cefnogi pobl anabl gyda chyflyrau corfforol, anawsterau synhwyraidd, anawsterau dysgu, awtistiaeth neu gyflyrau iechyd meddwl. Nid ydynt bellach yn cael eu hariannu i ddarparu hyfforddiant teithio
